

Cofnodion y Cyngor – cyfarfod 168

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Gwener 7 Rhagfyr 2018.
Lleoliad:	Cyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd
Yn bresennol:	Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Mike Griffiths (MG), Dafydd Rhys (DR), Richie Turner (RT), Marian Wyn Jones (MWJ), Iwan Bala (IB), Rachel O’Riordan (ROR), Kate Eden (KE), Melanie Hawthorne (MH), Andrew Miller (AM) ac Alan Watkin (AW),
Yno:	Nick Capaldi (NC), Gwyn Williams (GW), Kath Davies (KD), Diane Hebb (DH), Sian Tomos (ST), Angela Thomas (AT), Louise Wright (LW), Nikki Morgan (NM), Sian James (SJ), Eluned Haf (EH), Branwen Dickson (BD) a Katy Brown (KB) – yn cymryd cofnodion.
Ymddiheuriadau:	John Williams (JW).
Sylwedydd:	Peter Owen (PO).
Cyfieithu:	Lynwen Rees (LR)
Cyflwyniad:	David Richards (DRi), Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moseg, Llywodraeth Cymru
Statws y papur:	I’w gyhoeddi.

		Cam gweithre du
1.	Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd y sylwedydd staff BD i’r cyfarfod.	

<p>2. Datganiadau o Fuddiant (i'w nodi) Gofynnodd aelodau o'r Cyngor am i Ddatganiadau o Fuddiant gael eu cofnodi yn y cofnodion (wedi'u hamgáu fel atodiad i'r cofnodion hyn).</p>	
<p>Darparwyd y diwygiadau canlynol: Gofynnodd RT am i Brifysgol De Cymru gael ei chynnwys ar y gofrestr. (Cyflogedig)</p> <p>Datganodd MH y bu'n gefnogol wrth hybu cais am grant. Fodd bynnag, barnwyd nad oedd hwn yn fater i'w ddatgan.</p>	
<p>3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2018 Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>	
<p>4. Materion yn codi Cofnodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi cael eu cwblhau, ar ôl nodi bod yr eitem agenda ar Ddysgu Creadigol wedi cael ei had-drefnu i gael ei thrafod yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr eleni.</p> <p><u>National Theatre Wales</u> Cynhaliodd aelodau'r Cyngor gyfarfod anffurfiol ychwanegol i drafod sylw yn y wasg yn ddiweddar i berthynas National Theatre Wales ag awduron ac actorion yng Nghymru. Ymunodd ROR a DR â'r cyfarfod ac roedd NC, KD, MD yn bresennol fel aelodau o'r staff. Nodwyd y bu'r sgysiau'n heriol, ond bod NTW yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd. Nodwyd y gallai gymryd peth amser eto cyn y byddai effeithiau'r newidiadau arfaethedig yn gallu cael eu gwerthfawrogi'n llawn. Nodwyd y bydd National Theatre Wales yn cyhoeddi rhaglen 2019 cyn bo hir.</p> <p>Dywedodd KD y byddai'r cyfarfod blynyddol arferol gyda'r cwmni'n cael ei gynnal ym mis Ionawr, ac ar yr adeg honno y byddai'r cytundeb ariannu'n cael ei adolygu.</p> <p><u>Cyfarfod Cydraddoldeb Cenedlaethol</u> Aeth AM i'r cyfarfod Cydraddoldeb Cenedlaethol yn San Steffan. Yn y cyfarfod dygwyd ynghyd Gynghorau Celfyddydau'r Deyrnas Unedig, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol a'r Adran Gwaith a Phensiynau i drafod materion ynghylch cyflogaeth a hyfforddiant i bobl anabl yn y celfyddydau. Cynhelir cyfarfod arall yn yr haf.</p>	

	PG
<p><u>Recriwtio i'r Cyngor</u> Mae Llywodraeth Cymru wedi cael 20 o geisiadau hyd yma. Dywedodd PG y bydd yn sifftio'r ceisiadau gyda'r panel recriwtio cyn bo hir. Rhoddir diweddariad arall yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.</p> <hr/> <p>5. Cofnodion Pwyllgorau 5.1 Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018 Rhoddodd KE adroddiad i'r aelodau ar y busnes a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar.</p> <p>Diolchodd KE i DR am ei gyfnod fel cadeirydd.</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfod yn adeilad Opera Cenedlaethol Cymru. Diolchodd KE i KB, GW, AT am y trefniadau ac am baratoi'r papurau ar gyfer y cyfarfod, a letywyd gan Opera Cenedlaethol Cymru. Mwynhaodd yr aelodau'r daith o gwmpas adeilad Opera Cenedlaethol Cymru ac yn benodol gwyllo rhan o'r ymarfer gwisgoedd ar gyfer "La Cenerentola" gan Rossini.</p> <p><u>Adroddiad Archwilio Mewnol – Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</u> 'Sicrwydd cymedrol' oedd dyfarniad yr archwilwyr mewnol yn yr adroddiad hwn. At ei gilydd barnwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol.</p> <p>Cytunwyd y dylai'r adroddiad gael ei rannu ag aelodau Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p><u>Hunan-asesiad</u> Dywedodd KE y byddai hunan-asesiad y pwyllgor yn eitem ar agenda'r cyfarfod ym mis Ionawr. Mae swydd wag i un aelod annibynnol.</p> <p>Nododd y Cyngor y cofnodion.</p> <hr/> <p>5.2 Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol – cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2018 Rhoddodd MG adroddiad i'r aelodau ar y busnes a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar.</p>	KB
<p>5.2 Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol – cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2018 Rhoddodd MG adroddiad i'r aelodau ar y busnes a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar.</p>	

Arolwg Staff

Un o'r materion a godwyd gan aelodau o'r staff oedd eu canfyddiad bod yna arferion anghyson ymysg rheolwyr o ran gweithredu polisiau a phrosesau adnoddau dynol. Nododd MG fod yr archwilwyr mewnol, Deloitte, yn cynnal adolygiad o bolisiau adnoddau dynol a'r ffordd y gweithredir y gweithdrefnau.

Rhai sy'n gadael y staff

Bydd DA yn ymddeol ar ddiwedd mis Ionawr a bydd GW yn ymddeol yn gynnar ym mis Chwefror.

Hunan-asesiad

Dywedodd MG fod y pwyllgor wedi cyflawni ei hunan-asesiad yn y cyfarfod. Diolchodd MG i CHP am ei chymorth.

Penodi aelod Annibynnol o'r Pwyllgor

Nodwyd bod Val Ellis wedi cael ei dewis fel aelod annibynnol. Byddai argymhelliad ffurfiol yn cael ei anfon at y Cyngor ym mis Chwefror.

Cyflawnodd EC ddadansoddiad onest o'r ymateb i'r arolwg staff.

Nododd y Cyngor y cofnodion.

AT

5.3 Pwyllgor Cyfalaf – cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2018

Rhododd KD adroddiad i'r aelodau ar y busnes a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar.

Ucheldre

Mae'r cais wedi cael ei ohirio.

Theatr Brycheiniog

Dywedodd KD bod Rheolwr Cyffredinol newydd wedi cael ei benodi, oedd ag ymagwedd entrepreneuriaidd gadarn a chefnidir cryf yn y celfyddydau.

Cwmni Theatr Frân Wen

Roedd y cwmni wedi canfod safle gwahanol ar gyfer ei brosiect i'r un a ddewiswyd yn wreiddiol. Roedd yr aelodau wedi cytuno y dylai Cwmni'r Frân Wen gyflwyno Gwerthusiad Opsiynau byr fel cam cyntaf. Os yw hwnnw'n foddhaol, byddai'r Pwyllgor wedyn yn ystyried cais am gyllid i brynu'r safle. Byddai hyn yn amodol ar gael adroddiad y Prisiwr Dosbarth.

Theatr Bara Caws

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo'r benthyciad i brynu Y Fic ond wedi dod yn ôl gyda nifer o ymholiadau. Cytunodd KD i ddarparu llythyr o gefnogaeth i'r prosiect at Gyngor Gwynedd ac mae wedi cynnig cyfarfod â swyddogion os oes angen.

YMCA Pontypridd

Mae'r fîm prosiect lleol wedi atal gwasanaethau'r Rheolwr Prosiect ac wedi terfynu contract yr Ymgynghorydd Costau. Mae Capita wedi pennu pensaer arweiniol newydd i'r prosiect. Mae cyfarfod gyda'r partion allweddol yn yr arfaeth.

6. Adroddiad y Cadeirydd

Yn yr adroddiad cafwyd gwybodaeth am y digwyddiadau, cyfarfodydd neu berfformiadau yr aeth y Cadeirydd iddynt yn ddiweddar.

Gofal Cymdeithasol Cymru

Roedd PG wedi bod mewn cyfarfod defnyddiol iawn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Nododd y ddwy ochr synergeddau yn eu priod agendâu.

Roedd awydd mawr gan Ofal Cymdeithasol Cymru i fwrw ymlaen â'r berthynas, o bosibl trwy greu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Cynhadledd Engage

Roedd PG wedi siarad yn y gynhadledd ym Manceinion. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael ei ganmol yn fawr.

Theatr y Werin, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Nododd PG bwysigrwydd y digwyddiad hwn i Ganolfan y Celfyddydau a gwnaeth sylw am yr awyrgylch bywiog a byrlymus yn yr adeilad. Da oedd nodi bod y Gweinidog Diwylliant hefyd yn bresennol.

Diolchodd DR i NC a DH am fod yn bresennol ac i PG am siarad mor frwd.

Sefydliad Lego

Llongyfarchodd y Cadeirydd DH ar groesawu ymweliad llwyddiannus iawn gan Sefydliad Lego, oedd wedi dangos diddordeb arbennig yn ein rhaglen Dysgu Creadigol.

Aelodaeth y Pwyllgor

	<p>Cynigiwyd AE fel aelod newydd o'r Pwyllgor Cyfalaf. Cymeradwyodd y Cyngor yr argymhelliad.</p> <p>Dywedodd PG y byddai MH yn rhoi'r gorau i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Fenis. Diolchodd y Cyngor am gymorth MH ac am ei stiwardiaeth o brosiect Fenis. Nodwyd y bydd IB yn camu i swydd y Cadeirydd.</p> <p><u>Cyfathrebu Mewnol</u> Dywedodd SB fod y fewnrwyd Hwb yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol, gyda 2 neu 3 stori bob wythnos ar gyfartaledd. Mae grŵp prosiect wedi cael ei sefydlu i adolygu'r fewnrwyd. Edrychir yn fanylach ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Mae'r wefan gorfforaethol wedi cael ei lansio mewn fformat Beta. Gofynnodd y Cyngor am i'w werthfawrogiad o'r gwaith a wnaethpwyd gan y Golygydd Cynnwys Gwe, Betsan Jones, gael ei gofnodi.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>6.1</p>	<p>Hunan-asesiad y Cyngor Adolygodd y Cyngor y tabl o gamau gweithredu cytunedig.</p> <p>Nodwyd nifer o gamau gweithredu penodol:</p> <p><u>Gwell cyfathrebu gyda'r sector</u> KB i annog sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru i anfon gwahoddiadau i ddigwyddiadau at aelodau'r Cyngor.</p> <p><u>Rhyngweithio y Cyngor a'r staff</u> Mae aelodau o'r staff yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd.</p>	<p>KB</p>
<p>7.</p>	<p>Busnes y Prif Weithredwr Rhoddodd NC adroddiad ar y digwyddiadau yr oedd wedi mynd iddynt yn ddiweddar.</p> <p><u>Fforwm Loteri Cymru</u> Mae NC yn mynd i gyfarfod rheolaidd sy'n gyfle i ddsbarthwyr gyfarfod. Mae wedi bod yn canolbwyntio ar ddatllu 25 mlynedd o'r Loteri.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	

8. Adolygiad Cyflogau Cyngor Celfyddydau Cymru

Gadawodd yr holl staff, ac eithrio'r Prif Weithredwr, yr ystafell yn ystod yr eitem hon.

Ym mis Hydref cytunodd y Cyngor i gomisiynu gwaith ymchwil wedi'i fwriadu i fynd i'r afael â chwestiynau a godwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch ein strwythur cyflogau.

Yn dilyn proses gaffael gyhoeddus, penodwyd Acas i gyflawni'r gwaith. Roedd copi o'i adroddiad ar gael i aelodau'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad hwn wedi cael ei ystyried yn fanwl mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol ar 26 Tachwedd 2018. Roedd Cadeirydd y Cyngor yn bresennol ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem hon.

Nodwyd bod cydweithwyr o'r undeb wedi anfon eu sylwadau hwythau ar yr adroddiad at y Cyngor ar wahân.

Trafododd y Cyngor y papur a sylwadau'r undeb.

Cymeradwyodd y Cyngor argymhellion Acas (adroddiad, tudalennau 20-24).

Wrth wneud hynny, nododd y Cyngor y sylwadau canlynol:

1. Mae adroddiad Acas yn mynd i'r afael â phryderon gwreiddiol Llywodraeth Cymru.
2. Dylid cynnal gwerthusiad llawn o swyddi.
3. Mae angen gwaith i unioni a symleiddio'r strwythur graddau cyflogau.
4. Mae'r effaith bosibl ar y staff yn ystyriaeth allweddol. Dylid cyflawni'r broses mor gyflym ag sy'n briodol ac yn bosibl, a dylid rhoi gwybod i'r staff am y cynnydd yn llawn ac yn rheolaidd.
5. Dylai'r Uwch Tîm Arwain gydweithio'n agos â chydweithwyr o'r undeb i geisio hwyluso canlyniadau mae pawb yn cytuno arnynt.
6. Croesawir cynnig Acas i gynorthwyo yng nghanau pellach y broses.

Cytunodd y Cyngor y dylai'r Cadeirydd ymateb i sylwadau'r undeb ar ran y Cyngor.

Nododd y Cyngor yr adroddiad.

PG

9. Polisi a Phrosiectau Celfyddydol

9.1 Strategaeth Ryngwladol

Soniodd EH wrth y Cyngor am y gwaith a wnaethpwyd i ddiwygio ein Strategaeth Ryngwladol. Mae'r broses adolygu wedi golygu cryn dipyn o drafodaeth, yn anad dim y Fforwm Rhyngwladol a gynhaliwyd yn Chapter yn gynharach yn y flwyddyn. Mae cynlluniau hefyd wedi cael eu trafod gyda phartneriaid allweddol, megis y British Council.

Croesawodd y Cyngor y gwerth a roddwyd i'r blaenoriaethau allweddol: datblygu talent gweithwyr creadigol; sicrhau gwytnwch ein sector trwy feithrin partneriaethau rhyngwladol a chysylltiadau masnachu; a hybu proffil ac amlygrwydd celfyddydau Cymru.

Nododd y Cyngor hefyd fod y strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu dull ar draws y Cyngor o wireddu ein hagenda ryngwladol. Mae ein fîm rhyngwladol - Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - yn darparu canolbwynt naturiol, gan ddod â diffiniad ac ysgogiad i'n gweithgareddau rhyngwladol. Fodd bynnag, mae ein diddordebau rhyngwladol yn ymestyn y tu hwnt i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru ac roedd gweld bod ein strategaeth yn adlewyrchu hyn yn rhoi tawelwch meddwl i'r Cyngor.

Newidiodd cyd-destun ein gwaith rhyngwladol yn sylweddol ar ôl y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016. Mae nodyn ar y camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd er mwyn paratoui ar gyfer Brexit yn eitem ar wahân ar agenda'r Cyngor.

Nododd y Cyngor gynnwys y papur.

Cymeradwyodd y Cyngor gyhoeddi'r Strategaeth Ryngwladol yn amodol ar fân ddiwygiadau. Bydd PG/NC ac EH yn cymeradwyo'r ddogfen yn derfynol ac yn ei dosbarthu i'r Cyngor.

EH

9.2 Brexit – y goblygiadau posibl i'r celfyddydau

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi monitro datblygiadau Brexit ac wedi darparu gwybodaeth i'r sector. Yn y misoedd yn union ar ôl y refferendwm, cynaliasom arolwg o agweddau yn y sector. Hefyd cyhoeddasom ymchwil yn dangos amrywiaeth a maint cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i Gymru rhwng 2007 a 2016.

Canfu'r arolwg hwn y categorïau bras canlynol o ran pryderon:

- **Rhwyddineb symud** – mae pryderon ynghylch y cyfleoedd i unigolion symud o gwmpas Ewrop. Mae hefyd pryderon y bydd llai

o gyfleoedd i gwmnïau teithiol a chyfyngiadau mwy caeth ar symud gwrthrychau diwylliannol.

- **Cyllid** – gallai'r sector golli cyllid o wahanol ffynonellau (gan gynnwys Ewrop Greadigol a Chronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop). Mae 14% o sefydliadau'n elwa'n uniongyrchol ar gyllid oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd, ond mae 30% yn elwa'n anuniongyrchol o'r cymorth hwn.
- **Masnach** – mae pryderon yn parhau ynghylch gallu sefydliadau celfyddydol a diwylliannol i fasnachu'n rhyngwladol ar ôl Brexit.
- **Fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol** – mae'r sector yn elwa ar gyfreithiau a rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â hawlfraint, eiddo deallusol, hawliau ail-werthu artistiaid, eithriad rhag TAW yn ogystal â deddfwriaeth ar gyflogaeth, trethi a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Os bydd artistiaid yng Nghymru'n wynebu costau a biwrocratiaeth ychwanegol, gallai hyn fod yn ddigon i beri iddynt roi'r gorau i gynlluniau i weithio'n rhyngwladol.

Roedd y Cyngor yn dal i bryderu bod angen o hyd i artistiaid, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ar eu liwt eu hunain yn y Deyrnas Unedig baratoi ar gyfer amgylchedd lle gallent, o bosibl:

- Wynebu cyfyngiadau a chostau wrth ddod â thalent o'r Undeb Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â llawer llai o hyblygrwydd i ddod â gweithwyr ar eu liwt eu hunain i mewn yn gyflym i weithio ar brosiectau.
- Wynebu costau llawer uwch ac oedi wrth fasnachu nwyddau a gwasanaethau yn Ewrop wrth inni fynd yn ôl at system flaenorol o drwyddedau, gwiriadau tollau, a thariffau.
- Colli'r gallu i gael cyllid o'r Undeb Ewropeaidd a ffynonellau cyllid preifat os bydd y Deyrnas Unedig yn gyrchfan lai deniadol i fuddsoddwyr

Wrth i'r sefyllfa ddechrau dod yn gliriach, awgrymwyd ein bod yn teimlo y daeth yr adeg i roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol i'n sector am y ffactorau y dylai eu hystyried. Mae briffiad gwybodaeth drafft wedi'i amgáu fel **Atodiad 2**.

Llongyfarchodd PG y tîm ar y gwaith caled.

<p>Nododd y Cyngor gynnwys y papur hwn a’r Gofrestr Risgiau atodedig.</p> <p>Cymeradwyodd y Cyngor gyhoeddi’r briffiad gwybodaeth ar Brexit.</p>	
<p>9.3 Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol Cyflwynodd LW y papur a gofynnodd am i DA gael ei ddiolch yn ffurfiol am ei gymorth a’i gyngor.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2017, cafodd yr asiantaeth dylunio ac ymgynghori, Event Communications Ltd, ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu dichonoldeb sefydlu Oriol Celf Gyfoes i Gymru.</p> <p>Ar gyfer yr Astudiaeth roedd angen ystyried y modelau priodol, y gost bosibl a set o opsiynau i alluogi cyflawni’r canlyniad.</p> <p>Cyhoeddwyd adroddiad manwl a chynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd 2018 cyn dadl y cyfarfod llawn yn y Senedd ar 27 Tachwedd.</p> <p>Trafododd y Cyngor y cynnig yn fanwl.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>10. Cyflwyniad i Gadeiryddion ac Aelodau Byrddau ar Lywodraethu yn y Sector Cyhoeddus Rhoddodd David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg, Llywodraeth Cymru, gyflwyniad ar brotocolau llywodraethu i aelodau o Fyrddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Diolchodd y Cyngor i DRi am y cyflwyniad cynhwysfawr.</p>	
<p>11. Cyflwyniad: Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau Rhoddodd SJ a DH gyflwyniad ar waith a chanlyniadau’r rhaglen hyd yma.</p> <p>Diolchodd aelodau’r Cyngor i SJ a DH am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.</p>	

12. Adroddiadau ariannol

12.1 Adroddiad cyllid i'r mis a ddaeth i ben 31 Hydref 2018 a Chyllideb ddrafft 2018/19

Esboniodd GW fod yr adroddiad yn rhoi i'r Cyngor drosolwg lefel uchel o'r incwm a gwariant hyd ddiwedd mis Hydref 2018 a thynnodd sylw at y materion y bydd angen, o bosibl, eu trafod a gweithredu arnynt.

Roedd adran olaf yr adroddiad yn rhoi braslun o'r sefyllfa gyllidebol ddrafft ar gyfer 2019/20 ar sail y dyraniadau dangosol oddi wrth Lywodraeth Cymru o'i chynigion cyllideb drafft a gyhoeddwyd tua dechrau mis Hydref 2018, ac amcangyfrifon parhaus o incwm o'r Loteri.

Nododd y Cyngor yr adroddiad.

12.2 Argymhellion ariannu Portffolio Celfyddydol Cymru 2018/19 a 2019/20

Wrth baratoi'r argymhellion hyn ar gyfer 2019/20, esboniodd KD fod swyddogion wedi cymryd i ystyriaeth bedwar mater penodol:

1. Perfformiad Portffolio Celfyddydol Cymru ers ein Hadolygiad Buddsoddi 2015
2. Ein gwaith craffu ar gynlluniau busnes aelodau'r Portffolio
3. Y wybodaeth sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'n *Rhaglen Wytnewch*
4. Cynnydd yn erbyn ein Cytundebau Ariannu diwygiedig

Yn gynharach yn y flwyddyn cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion cyllideb drafft ar gyfer 2019/20. Yn amodol ar gytundeb y Cyngor i'n cyllideb gyffredinol ar gyfer 2019/20, roedd swyddogion yn cynnig i'r Cyngor gynnal lefel bresennol y cyllid cymorth grant i Bortffolio Celfyddydol Cymru a chadw arian y Loteri i sefydliadau dirprwyedig ar lefelau'r flwyddyn gyffredol.

Gadawodd ROR yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar Theatr Sherman.

Nododd y Cyngor fod y papur yn rhestru'r cynigion ar gyfer ariannu pob aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru (ceir crynodeb yn **Atodiad 1**). Nodwyd hefyd y cafwyd dau gais am flaenswm o arian y flwyddyn nesaf, er mai'r sefyllfa bresennol oedd y byddai angen blaenswm ar un sefydliad yn unig (Theatr Sherman) (manyliion yn **Atodiad 2** i'r papur).

Cymeradwyodd y Cyngor:

1. Argymhellion ariannu Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer 2019/20
2. Y blaenswm o'r grant i Theatr Sherman

Dychwelodd ROR i'r ystafell.

12.3 Argymhellion ariannu

Mae angen i'r Cyngor gymeradwyo penderfyniadau ar geisiadau am arian Loteri o £50,001 neu ragor. Cyflwynwyd 8 argymhelliad.

ID/Cyf	Sefydliad	Cais	Argymhelliad	Maes
20180890	Tŷ Pawb	£115,000	£115,000	Grant Cymorth Rhaglennu
20180907	Ballet Cymru	£59,200	£59,200	Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol
20180897	Green Man Festival Limited	£60,000	£55,000	Gwyliau
20180947	Hay Festival of Literature and the Arts Ltd	£60,000	£60,000	Gwyliau
20180959	Eisteddfod Genedlaethol Cymru	£75,000	£75,000	Gwyliau
20180942	Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy	£70,000	£70,000	Cymryd Rhan
20180899	Peak	£60,000	£60,000	Cymryd Rhan
20180931	Venue Cymru	£82,000	£82,000	Cymryd Rhan
		£581,200	£576,200	

Cymeradwydd y Cyngor yr argymhellion.

Nododd y Cyngor hefyd y grantiau o dan £50,000 a gymeradwywyd yn unol â threfn awdurdod dirprwyedig y Cyngor.

Celfyddydau a Busnes Cymru

Trafododd y Cyngor gynnydd Celfyddydau a Busnes Cymru wrth fynd i'r afael â'r targedau a'r gofynion a nodwyd yng nghynnig ariannu blaenorol y Cyngor.

Roedd y Cyngor yn siomedig nad oedd Celfyddydau a Busnes Cymru wedi

	<p>gwneud mwy o gynnydd wrth fynd yn fwy hunangynhaliol – yn wir, nododd y Cyngor fod y sefydliad yn ceisio lefel uwch o arian cyhoeddus oddi wrth Lywodraeth Cymru.</p> <p>Nododd y Cyngor y pwysigrwydd yr oedd Llywodraeth Cymru'n ei roi ar hybu cymorth gan fusnesau a dymuniad y Llywodraeth i sefydlu partneriaeth ariannu gyda Chyngor y Celfyddydau.</p> <p>Felly cytunodd y Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • i barhau i ariannu Celfyddydau a Busnes Cymru • i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar gytundeb partneriaeth gyda Chelfyddydau a Busnes Cymru sy'n ysgogi arloesi a thwf gan fusnesau • i gynnal arolwg o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru er mwyn cael dealltwriaeth well o ofynion ymarferol y sector a lefel bresennol perfformiad Celfyddydau a Busnes Cymru • i wneud yn glir y bydd angen i Gelfyddydau a Busnes Cymru gyflawni yn erbyn blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol er mwyn cael arian • i neilltuo £50,000 ar y mwyaf yn y gyllideb ar gyfer 2019/2020 i Gelfyddydau a Busnes Cymru at ddibenion cynllunio. (Manylion unrhyw drefniant i gael eu trafod a'u rheoli gan aelodau o'r staff.) 	
<p>13.</p>	<p>Adroddiad y Cyfarwyddwyr Croesawodd yr aelodau yr adroddiad cynhwysfawr a llawn gwybodaeth.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>14.</p>	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf Dydd Iau 28 a dydd Gwener 29 Mawrth 2019, Tŷ Pawb, Wrecsam</p>	

**Cyfarfod y Cyngor:
Dydd Gwener 7 Rhagfyr 2018:**

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Eitem agenda	Cam gweithredu/Penderfyniad	Cyfrifoldeb
4.	Y Cadeirydd i roi diweddariad ar recriwtio aelodau newydd i'r Cyngor.	PG
5.1	Dylai copi o'r adroddiad archwilio mewnol ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei rannu ag aelodau o'r Grŵp Monitro.	KB
5.2	Cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi aelodau newydd i Bwyllgor(au) i'r Cyngor i gael eu cymeradwyo.	AT
6.1	Dylid annog sefydliadau i anfon gwahoddiadau i ddigwyddiadau celfyddydol at y Cyngor.	KB
8.	Bydd y Cadeirydd yn ymateb i sylwadau'r undeb ar adroddiad Acas ar yr Adolygiad Cyflogau.	PG
9.1	Dylai PG/NC/EH gytuno ar ddrafft pellach o'r Strategaeth Ryngwladol a dylai honno gael ei chyhoeddi ar y cyfle cyntaf.	EH